Gwaith Swyddog Arweiniol Gofalwyr Wrecsam

Adroddiad Trosolwg Ymgynghori

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3

2. Dulliau ymgynghori 3

3 Y bobl wnaeth ymateb 4

4. Atebion i gwestiynau detholedig 6

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r canlyniadau, mae'n cynnwys ymatebion i gwestiynau detholedig a rhai o'r sylwadau a wnaed. Mae adroddiad llawn o 27 tudalen wedi'i gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) a gomisiynodd y gwaith hwn.

Cylch gorchwyl yr ymgynghoriad hwn oedd canfod barn rhanddeiliaid am wasanaethau i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam a barn gweithwyr proffesiynol yn y maes ar yr angen am Swyddog Arweiniol Gofalwyr ar gyfer Wrecsam. Cynhaliodd Ymgynghorwyr Amgen Cyf. yr ymgynghoriad ym Mawrth ac Ebrill 2022, gyda chefnogaeth y tîm comisiynu.

Datblygwyd pedwar templed i'r ymgynghoriad, ar gyfer:

a) Gofalwyr di-dâl
b) Pobl sy'n derbyn gofal di-dâl
c) Staff o Asiantaethau Partner
d) Staff CBSW

Roedd y 4 templed yn cynnwys 11 cwestiwn craidd am wasanaethau i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam, ond roedd gwybodaeth gyd-destunol a rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn amrywio.

2. Dulliau ymgynghori

2.1 Cyfweliadau strwythuredig a grwpiau ffocws bychan

Cynhaliwyd y cyfweliadau strwythuredig cyntaf ar ddydd Sadwrn 05.03.2022 a chynhaliwyd y grŵp ffocws bach olaf ar ddydd Mawrth 12.04.2022.

2.2 Templedi a gwblhawyd ac a ddychwelwyd

Cymerodd cyfanswm o 7 o bobl yr opsiwn i gwblhau a dychwelyd templedi eu hunain.

2.3 Cwblhau cwestiynau ar Eich Llais Wrecsam

Rhoddwyd y cwestiynau o'r pedwar templed ar Eich Llais Wrecsam ac roedd y cwestiynau'n fyw rhwng dydd Mercher 30.03.2022 a dydd Llun 11.04.2022.

2.4 Cyfrannu yn Gymraeg

Roedd pob dull yn cynnwys yr opsiwn o gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac fe wnaeth nifer o ymatebwyr gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.

3 Y bobl wnaeth ymateb

3.1 Y nifer o bobl wnaeth ymateb trwy wahanol ddulliau

TABL 1

Grŵp	Nifer y siaradodd ymgynghorydd a hwy	Nifer gwblhaodd dempled	Nifer atebodd gwestiynau ar Eich Llais Wrecsam*	Cyfanswm
Gofalwyr di-dâl	14	2	70	86
Pobl yn derbyn gofal di-dâl	8	3	24	35
Staff sefydliadau partner	19	1	10	30
Staff CBSW	19**	1	8	28
Cyfansymiau	**60**	**7**	**112**	**179**

* Nid yw'r rhai gofnodwyd ond na atebodd unrhyw gwestiynau o sylwedd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau. **Ni chynhwysir 2 berson y siaradwyd â nhw lle na dderbyniwyd templed wedi ei gwblhau.

3.2 Peth data cyd-destunol ar gyfer staff o Asiantaethau Partner a staff o CBSW

TABL 2

Blynyddoedd yn y maes hwn	<1	1 - 2	3 - 5	6 - 10	11 - 15	16 - 20	20+
Rhif	5	1	8	5	7	4	15

TABL 3

Ydych chi yn ofalwr di-dal?	Ydw	Nac Ydw	Roeddwn i o'r blaen?	Rhai na fu yn ofalwr di-dâl erioed- wedi ei weithio allan
Rhif	15	36	17	19 allan o 51* = 37%

Mae'n werth nodi nifer (32) a chanran (63%) y staff a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a oedd yn ofalwyr di-dâl neu a fu'n ofalwyr di-dâl yn flaenorol.

3.3 Peth data cyd-destunol ar gyfer gofalwyr di-dâl a'r rhai yn derbyn gofal di-dâl

TABL 4

Person yn derbyn gofal	Perthynas	Cyfaill	Arall	Dim eisiau dweud	Rhyw			
					Benyw	Gwryw	Arall	Dim eisiau dweud
Rhif	89	3	4	2	51	43	1	-

Oedran y person yn rhoi gofal	0-15	16 -24	25- 49	50-64	65-80	80+
Rhif	20	5	16	13	23	16

TABL 5

Person yn rhoi gofal	Perthynas	Cyfaill	Arall	Dim eisiau dweud	Rhyw			
					Benyw	Gwryw	Arall	Dim eisiau dweud
Rhif	89	3	4	2	71	19	-	-

Oedran y person yn rhoi gofal	0-15	16 -24	25- 49	50-64	65-80	80+
Rhif	1	1	32	26	28	3

TABL 6

Blynyddoedd fel gofalwr di-dâl NEU o ddarparu gofal di-dâl	<1	1 - 2	3 - 5	6 - 9	10 - 14	15 - 19	20+
Rhif	-	9	16	19	13	12	9

TABL 7

Oriau'r wythnos o ofal di-dâl a ddarperir ar gyfartaledd	0 - 19	20 – 49	50 – 99	100 – 167	24 / 7 (168)
Rhif	13	14	7	12	34

Ffaith nodedig am yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd nifer (34) a chanran (43%) yr ymatebwyr a ddwedodd eu bod yn darparu gofal 24/7. Mewn trafodaeth â'r cyfranogwyr y siaradwyd â nhw, tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith bod angen iddynt fod ar gael i'r sawl y gofelir amdano hyd yn oed pan oeddent yn cysgu.

4. Atebion i gwestiynau detholedig

4.1 Enghreifftiau o ymatebion neu sylwadau wedi'u cynnwys

Cynhwysir rhai enghreifftiau o'r sylwadau neu'r ymatebion. Mae'r rhain wedi'u dewis fwy neu lai ar hap, ond rhoddwyd ystyriaeth i adlewyrchu cydbwysedd yr ymatebion a bu ymgais i gynnwys dyfyniadau sy'n rhoi rhywfaint o fewnwelediad.

4.2 Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam

TABL 8

1. Pa gymorth i ofalwyr di-dâl ydych chi'n ymwybodol ohono yn Sir Wrecsam?

Ymatebion fesul dosbarth	Cyfeirio at un neu fwy o wasanaethau	Ddim yn gwybod am unrhyw wasanaethau	Ateb negyddol e.e. 'Ychydig iawn''	Dim ateb
Gofalwyr di-dâl	33	31	3	19
Pobl yn derbyn gofal di-dâl	2	12	2	19
Staff o sefydliadau partneriaid	19	0	1	10
Staff CBSW	25	0	0	3
Cyfansymiau	79	43	6	51

TABL 9

1. Y gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt amlaf gan ymatebwyr

Gwasanaeth		Gofalwyr di-dâl	Pobl yn derbyn gofal di-dâl	Staff sefydliadau partner	Staff CBSW	Cyfanswm
1	NEWCIS	21	1	15	21	58
2	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam	1	0	12	6	19
3	Credu Gofalwyr Ieuanc WCD	2	0	6	10	18
4	AVOW	1	0	5	7	13
5	Seibiant neu wyliau	3	0	1	8	12
6	Dy Le Di	2	0	5	4	11
7	Gweithiwr / Gwasanaethau Cymdeithasol	6	0	2	1	9
8	Dynamic	2	0	4	3	8
9	Grant / grant CBSW	6	0	1	1	8
10	Pontio'r Bwlch	0	0	1	6	7
10	Tîm TAC CBSW	1	0	4	2	7

4.3 Yr agweddau mwyaf cadarnhaol

TABL 10

2. Beth yw'r agweddau mwyaf cadarnhaol ar y cymorth i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam?

Ymatebion fesul dosbarth	Cyfeirio at wasnaeth(au) penodol	Ymateb cadarnhaol arall	Ymateb negyddol	Ddim yn gwybod ac ati	Dim ateb
Gofawlyr di-dâl	**23**	6	5	27	25
Pobl yn derbyn gofal di-dâl	1	1	1	12	20
Staff o sefydliadau partneriaid	12	3	0	0	15
Staff CBSW	16	8	0	1	3
Gofawlyr di-dâl	**52**	**18**	**6**	**40**	**63**

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r bobl roddodd ymateb cadarnhaol at wasanaeth neu wasanaethau penodol. Mae enghreifftiau o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Y gydnabyddiaeth o'r gwaith amhrisiadwy y mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud, y ffaith bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig a'u bod ar gael yn rhwydd, a'r ffaith bod gan y prif ddarparwr NEWCIS ystod dda o wasanaethau ar gael." *Aelod o staff o GBSW, Cyfweliad Strwythuredig*

"Hawdd iawn siarad â NEWCIS ac roedd yr Un Pwynt Mynediad yn glir gyda chefnogaeth ar gyfer addasiadau."
Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam

"Dywedwch chi wrthyf i, heb dderbyn dim eto." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Chi Wrecsam*

4.4 Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

TABL 11

3. Ar raddfa o 1 – 10 beth yw eich barn am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam? (lle mae 1 yn wael iawn a 10 yn dda iawn)

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
56	**6**	6	13	14	14	11	9	12	3

Y sgôr cyfartalog ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 4.1

O'r 52 o ymatebion a sgoriodd yr ansawdd fel '1', daeth 50 o'r rheini o ymatebion a dderbyniwyd drwy Eich Llais Wrecsam, gyda'r mwyafrif yn dod gan ofalwyr di-dâl a phobl yn derbyn gofal di-dâl (41).



Ychwanegodd rhai o'r rhai a roddodd sgôr isel sylw i'r perwyl nad oeddent yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael ac mae'n ymddangos felly nad oedd y sgôr isel mewn nifer o achosion ar gyfer ansawdd y gwasanaethau a ddarperir mewn gwirionedd ond am ddiffyg tybiedig mewn gwasanaethau neu wybodaeth am wasanaethau. Ymddengys bod pwynt tebyg yn berthnasol i nifer o gwestiynau lle rhoddwyd sgorau isel neu ymatebion negyddol. Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Rwy'n teimlo fy mod wedi cael llawer o gefnogaeth ac wedi cael fy hysbysu pan oedd cymorth newydd ar gael." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Mae ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan asiantaeth Bevris i fy merch yn dda iawn. Nid ydym ni, ei rhieni, yn cael dim gwasanaeth. Cynigiwyd, a derbyniwyd, asesiad gofalwr i ni rai blynyddoedd yn ôl a oedd yn cynnwys llawer o lenwi ffurflenni ond ni chawsom adborth yn dilyn hyn. Dim ond ymarfer ticio blychau ydoedd ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

4.5 Pa mor hawdd ydi hi i ganfod pa wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd

TABL 12

4. Ar raddfa o 1 – 10, pa mor hawdd yw hi i ganfod pa wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam? (lle mae 1 un anodd iawn a 10 yn hawdd iawn)

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
59	**9**	13	13	11	11	11	10	4	-



Y sgôr cyfartalog a roddwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 3.4, sef yr isaf ar gyfer unrhyw un o'r cwestiynau 1-10.

O'r 59 o ymatebion a roddodd sgôr o '1' am pa mor hawdd oedd hi i ganfod pa wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, daeth 52 o'r rheini o ymatebion a dderbyniwyd drwy Eich Llais Wrecsam gyda'r mwyafrif yn dod gan ofalwyr di-dâl a phobl sy'n derbyn gofal di-dâl (44).

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Mae hwn yn un anodd i'w ateb, oherwydd rwân fy mod i'n gwybod beth sydd ar gael mae'n ymddangos yn hawdd iawn i bobl ddarganfod. Fodd bynnag, pan oeddwn i yn ofalwr di-dâl fy hun doeddwn i ddim yn ei chael hi'n hawdd o gwbl." *Gofalwr di-dâl, Cyfweliad Strwythuredig*

"Allaf i ddim ateb am nad ydw i'n gwybod beth ydyn nhw." *Gofalwr di-dâl, Cyfweliad Strwythuredig*

"Dim ond trwy elusen arall, Dy Le Di, y des i wybod am yr un elusen, NEWCIS. Dydw i ddim wir yn gweld unrhyw beth yn cael ei hysbysebu'n agored." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Mae cymaint o fylchau, ac mae cymaint o wahanol grwpiau o ofalwyr a phobl angen gofal di-dâl. Nid yw un ateb yn addas i bawb ac mae gan rai o'r plant a'r bobl ifanc anghenion cymhleth iawn." *Aelod o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig*

4.6 Argaeledd gwasanaethau i ofalwyr di-dâl

TABL 13

5. Ar raddfa o 1 – 10, beth yw eich barn am argaeledd gwasanaethau i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam? (lle mae 1 yn wael iawn a 10 yn dda iawn)

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
56	12	10	7	17	14	10	4	4	5

Y sgôr cyfartalog a roddwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 3.6.



O'r 56 o ymatebion a sgoriodd argaeledd gwasanaethau fel '1', daeth 50 o'r rheini o ymatebion a dderbyniwyd drwy Eich Llais Wrecsam gyda'r mwyafrif yn dod gan ofalwyr di-dâl a phobl yn derbyn gofal di-dâl (44).

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Os ydych chi'n gwybod at bwy i fynd a sut i ofyn, mae'r gwasanaethau ar gael." *Aelod o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig*

"Mae'n amhosib cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, dydyn nhw ddim yn ymateb i'r negeseuon rydych yn eu gadael ac yna'n gwadu eich bod wedi cysylltu, ac nid ydynt yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

4.7 Pa mor hawdd ydi hi i gael mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael

TABL 14

6. Ar raddfa o 1 – 10, pa mor hawdd yw hi i gael mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam? (lle mae 1 un anodd iawn a 10 yn hawdd iawn)

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
53	9	2	8	21	10	8	7	7	6

Y sgôr cyfartalog a roddwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 3.8.



O'r 53 o ymatebion a roddodd sgôr o '1' ar gyfer pa mor hawdd yw hi i gael mynediad at wasanaethau, daeth 49 o'r rheini o ymatebion a dderbyniwyd drwy Eich Llais Wrecsam, gyda'r mwyafrif yn dod gan ofalwyr di-dâl a phobl sy'n derbyn gofal di-dâl (43).

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Unwaith y byddwch chi wedi cyrraedd y pwynt hwnnw, mae'n hawdd iawn cael mynediad." *Aelod o staff o GBSW, Cyfweliad Strwythuredig*

"Unwaith eto, mae yna ychydig o raniad rhwng gwasanaethau fel seibiant nad ydyn nhw mor hawdd i'w cael, a'r gwasanaethau fel cyngor ac arweiniad y gallwch chi gael mynediad iddyn nhw yn haws." *Aelod o staff o GBSW, Cyfweliad Strwythuredig*

4.8 Bylchau yn y gwasanaeth neu faint o welliant sydd ei angen

TABL 15

7. Beth yw'r bylchau mwyaf neu feysydd i'w gwella o ran cymorth i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam ar hyn o bryd?

Bylchau yn y gwasanaeth neu faint o welliant sydd ei angen:	Dim yn gwybod	Dim	Peth	Sylweddol	Mawr
a. Faint o gefnogaeth a ddarperir	33	19	27	12	16
b. Argaeledd gwasanaethau	33	16	27	14	13
c. Cyfathrebu beth sydd ar gael a sut i gael mynediad ato	31	13	20	19	27
d. Darganfod beth sydd ar gael	28	15	18	25	22
e. Cael mynediad i wasanaethau	30	17	24	18	11
f. Gwasanaethau sydd ar gael yn diwallu anghenion gofalwyr di-dâl	34	17	24	14	15
g. Cydgysylltu rhwng gwahanol dimau a gwasanaethau	42	8	24	14	20
h. Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir	39	19	23	10	9

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Mae angen sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael ac rwy'n meddwl bod Covid wedi effeithio ar allu gofalwyr i gael cymorth a mynychu grwpiau wyneb yn wyneb." *Aelod o staff o GBSW, Cyfweliad Strwythuredig*

"Rydym ni angen Swyddog Gofalwyr i'n helpu ni!" *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

4.9 Pe bai yna un peth y gallech ei newid

TABL 16

8. Pe bai yna un peth y gallech ei newid am wasanaethau i ofalwyr di-dâl yn Sir Wrecsam, beth fuasai hynny?

Ymatebion fesul dosbarth	Un awgrym neu fwy	Dweud nad oeddent yn gwybod	Dim ymateb i'r cwestiwn
Gofalwyr di-dâl	33	14	39
Pobl yn derbyn gofal di-dâl	8	7	20
Staff o sefydliadau partneriaid	15	0	15
Staff CBSW	25	0	3
Cyfansymiau	**81**	**21**	**79**

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Argaeledd a gwybodaeth am grantiau sydd ar gael a gwybodaeth a chymorth i'w llenwi. Er enghraifft grantiau seibiant/gwyliau." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Cael mwy o wasanaethau, cael gwasanaethau mwy hygyrch, a chael mwy o wybodaeth ar gael yn haws am y gwasanaethau hynny." *Aelod o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig*

"Rwy'n meddwl y dylai fod mwy i ofalwyr plant. Gwasanaethau seibiant priodol a chymorth ag anghenion iechyd. Roeddwn gen i weithiwr cymdeithasol o'r blaen ond maent yn dweud nad oes angen un arnaf rwan." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Ei fod yn rhagweithiol - rhyw fath o system lle nad oes rhaid i bobl nodi eu hunain fel gofalwyr di-dal. Pan nodir bod unigolyn angen gofal, dylai fod y strwythur cymorth yn rhoi pethau yn eu lle i gefnogi'r sawl sy'n derbyn gofal a'r gofalwyr." *Gofalwr di-dâl, Templed wedi ei gwblhau*

4.10 Ydi'r gwasanaethu y rhai sydd eu hangen mewn gwirionedd?

TABL 17

9. Ar raddfa o 1 – 10, i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn Sir Wrecsam y rhai sydd eu hangen mewn gwirionedd? (lle mae 1 yn wael iawn a 10 yn dda iawn)

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
40	9	4	8	12	16	6	8	4	9

Y sgôr cyfartalog a roddwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 4.2, sef yr uchaf ar gyfer y pum cwestiwn 1-10.



O'r 40 o ymatebion a sgoriodd i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn rhai sydd eu hangen mewn gwirionedd fel '1', daeth 36 o'r rheini o ymatebion a dderbyniwyd drwy Eich Llais Wrecsam gyda'r mwyafrif yn dod gan ofalwyr di-dâl a phobl sy'n derbyn gofal di-dâl (32).

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Dydyn ni ddim yn gwybod amdanyn nhw a dydyn ni ddim yn gwybod ble maen nhw. Dydyn ni ddim yn gwybod sut i gael gafael arnynt." *Person yn derbyn gofal di-dâl, Templed wedi ei gwblhau*

"Mae yna lawer o bethau da ond mae rhai bylchau o ran eiriolaeth a seibiant."
Aelod o staff o GBSW, Cyfweliad Strwythuredig

"Mae eich gwasanaethau'n uffernol, mae'r rhestrau aros yn jôc ac allwch chi ddim darparu'r gwasanaethau y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ichi eu darparu." *Person yn derbyn gofal di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Yn seiliedig ar yr adborth yr wyf wedi ei weld, mae'n debyg bod y gofal seibiant yno, ond nad yw'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion rhai o'r gofalwyr, mae lle i wella bob amser, yn amlwg o fewn cyfyngiadau ariannol pob awdurdod lleol."
Aeold o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig

4.11 Ydi gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth yn Sir Wrecsam yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt?

TABL 18

10. Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod y gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth yn Sir Wrecsam yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt?

Ymatebion fesul dosbarth	Ydynt	Mae rhai yn a rhai ddim	Nac ydynt	Ddim yn gwybod	Dim ateb
Gofawlyr di-dâl	8	4	36	6	32
Pobl yn derbyn gofal di-dâl	0	0	12	3	20
Staff o sefydliadau partneriaid	3	5	6	2	14
Staff CBSW	1	15	8	0	4
Cyfansymiau	**12**	**24**	**62**	**11**	**70**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Y bobol uchaf eu cloch sy'n cael fwyaf, ac mae angen i ni weithio allan ffordd o sicrhau cyfran deg i bawb. Yn gyffredinol nid yw pobl yn cael y gefnogaeth oni bai eu bod yn y system, ac mae'n debyg bod hynny'n golygu bod yna lawer o bobl y bydd eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu." *Aelod o staff o CBSW, Cyfweliad Strwythuredig*

"Mae'n dibynnu ar gymaint o bethau gwahanol, gan gynnwys yr hyder i gael mynediad at y cymorth sydd ar gael. Mae'r rhai yn y system yn cael yr help, ac nid yw'r rhai nad ydynt yn y system yn ei gael. Nid yw rhai eisiau gweld eu hunain fel rhai sydd angen cymorth." *Aelod o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig*

"Fuaswn i ddim yn meddwl. Mae gofalu am berthynas yn waith heriol iawn ac ychydig iawn o berthnasau sy'n gofyn am gymorth." *Gofalwr di-dâl, Cyfweliad Strwythuredig*

4.12 Effaith ariannol y rôl ofalu (cwestiynau a ofynnwyd i ofalwyr di-dâl yn unig)

TABL 19

11. Ydi eich rôl fel gofalwr di-dâl wedi cael effaith ariannol sylweddol arnoch chi?

Do	Naddo	Dim awydd dweud	Dim ateb
37	15	10	24

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Mae fy holl gyflog ac incwm yn cael eu defnyddio i ofalu." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Do, bu'n rhaid i mi roi'r gorau i weithio, felly collais fy incwm – ond rwyf bellach wedi ymddeol." *Gofalwr di-dâl, Cyfweliad Strwythuredig*

"Nid wyf yn gallu gweithio'n llawn amser gan fy mod yn gofalu am fy mab ac nid wyf yn cael unrhyw help ariannol heb roi'r gorau i weithio." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

TABL 20

12. A oes digon o gymorth ariannol ar gael i deuluoedd sy'n darparu gofal di-dâl?

Oes	Fe ddylai fod yna ychydig mwy	Fe ddylai fod yna lawer mwy	Dwi ddim yn gwybod beth sydd ar gael	Dim ateb
0	10	24	19	33

Roedd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

"Talwch dâl cyfwerth ag oriau llawn amser i ofalwyr! 40 awr ar £9.50 = £380 yr wythnos." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Mae angen mwy o grantiau a'i gwneud hi'n haws ymgeisio amdanynt." *Gofalwr di-dâl, Eich Llais Wrecsam*

"Na, dydw i ddim yn gwybod pa gymorth ariannol sydd ar gael. Mae'r wraig sy'n llenwi'r ffurflen hon wedi gofyn a ydw i'n hawlio lwfans gofalwr nad oeddwn i'n gwybod amdano, ond mae hi wedi dweud wrthyf sut i wneud hyn." *Gofalwr di-dâl, Cyfweliad Strwythuredig*

4.13 Ddylai cael Swyddog Arweiniol Gofalwyr fod yn flaenoriaeth i CBSW?

(Cwestiwn a ofynnwyd i staff CBSW a staff o Sefydliadau Partner yn unig)

TABL 21

13. Ydych chi'n meddwl y dylai cael Swyddog Arweiniol Gofalwyr fod yn flaenoriaeth i CBSW?

Ydw	Nac ydw	Dim yn siŵr	Dim ateb
44	1	4	9

"Mae angen cydgysylltu ar draws Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant. Mae hefyd angen cael canolbwynt i gasglu'r wybodaeth berthnasol ynghyd er mwyn gallu helpu pobl mewn modd amserol ac effeithiol yn hytrach na chael eu trosglwyddo o un swyddog i'r llall." *Aelod o staff o GBSW, Cyfweliad Strwythuredig*

"Dylai Swyddog Arweiniol Gofalwyr allu symud pethau ymlaen, a byddai gwir angen i'r rôl eistedd o fewn y Cyngor. Bydd cymhlethdod y maes yn heriol." *Aelod o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig*

"I gydlynu a chysylltu'r gwasanaethau sydd ar gael, mynd i'r afael â'r bylchau, cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau atgyfeirio cadarn, a sicrhau bod cysylltu â'r gwasanaethau hyn yn hawdd / ar unwaith i ofalwr di-dâl deimlo bod rhywun yn gwrando arno ac yn ei ddeall. (byddant yn gwneud ceisiadau am gymorth fel arfer pan fyddant dan straen mawr oherwydd rôl gofalu). *Aelod o staff o GBSW, Eich Llais Wrecsam*

"Rwy'n meddwl y dylai cael swydd o'r fath fod yn flaenoriaeth, ond nid wyf yn siŵr y dylai fod yn swydd o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rwy'n meddwl y gallai fod yn well ei chael wedi'i lleoli o fewn sefydliad trydydd sector diduedd. O safbwynt rhiant efallai eu bod yn tueddu i fod yn fwy amheus o rywun sydd wedi'i leoli yn y Cyngor." *Aelod o staff o Sefydliad Partner, Cyfweliad Strwythuredig*

Cyflwynwyd yr Adroddiad Trosolwg gan Ymgynghorwyr Amgen Cyfyngedig Awst 2022.